# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Hybrid – Ystafell Bwyllgora 5 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:
http://senedd.tv/cy/12948

Dyddiad: Dydd Mercher, 29 Mehefin 2022

Amser: 09.30 - 10.31

# Hybrid

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Russell George AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Gareth Davies AS<br>Jack Sargeant AS |
| Tystion: | Colin Dennis |
| Staff y Pwyllgor: | Claire Morris (Ail Glerc)<br>Lowri Jones (Dirprwy Glerc)<br>Rebekah James (Ymchwilydd)<br>Dr Paul Worthington (Ymchwilydd) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Mike Hedges AS a Joyce Watson AS.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer rôl Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru: sesiwn dystiolaeth gyda'r ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Colin Dennis, yr ymgeisydd a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer rôl Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

## 3 Papurau i'w nodi

### 3.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau at y Cadeirydd ynghylch P-06-1250 Dylid agor cyfleuster ysbyty llawn, gan gynnwys adran damweiniau ac achosion brys yng nghanolbarth Cymru

3.1 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.2 Llythyr gan y Comisiynydd Cydraddoldeb a Hawliau Dynol at y Cadeirydd ynghylch profiadau o iechyd a gofal cymdeithasol: triniaeth gweithwyr o leiafrifoedd ethnig ar gyflogau is

3.2 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.3 Llythyr gan y Cadeirydd at yr Athro Kirby a'r Athro Thapar gyda chwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar anghydraddoldebau iechyd meddwl ar 8 Mehefin 2022

3.3 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

### 3.4 Ymateb gan yr Athro Kirby ynghylch cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar anghydraddoldebau iechyd meddwl ar 8 Mehefin 2022

3.4 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

### 3.5 Ymateb gan yr Athro Thapar ynghylch cwestiynau dilynol ar ôl y sesiwn dystiolaeth ar anghydraddoldebau iechyd meddwl ar 8 Mehefin 2022

3.5 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

**3.6 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch cyfarfod o'r Grŵp Rhyngweinidogol ar gyfer Gweinidogion Iechyd y DU**

3.6 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.7 Llythyr gan y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant at y Cadeirydd ynghylch lansio ymgynghoriad ar yr Amgylchedd Bwyd Iach a dod â gwerthiant diodydd egni i blant i ben**

3.7 Nododd y Pwyllgor y llythyr a chytunodd i ysgrifennu at y Dirprwy Weinidog.

**3.8 Llythyr gan Russell George AS, Cadeirydd, y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol at Weinidog yr Economi gyda chwestiynau dilynol o'r cyfarfod ar 27 Ebrill 2022**

3.8 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.9 Ymateb gan Weinidog yr Economi at Russell George AS, Cadeirydd, y Grŵp Trawsbleidiol ar Ymchwil Feddygol ynghylch cwestiynau dilynol o'r cyfarfod ar 27 Ebrill**

3.9 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

**3.10 Llythyr gan y Cadeirydd at Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda chwestiynau dilynol ar ôl sesiwn dystiolaeth yr ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl ar 19 Mai 2022**

3.10 Nododd y Pwyllgor y llythyr.

**3.11 Llythyr gan y Cadeirydd at Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda chwestiynau dilynol ar ôl sesiwn dystiolaeth yr ymchwiliad i anghydraddoldebau iechyd meddwl ar 19 Mai 2022**

3.11 Nododd y Pwyllgor yr ymateb.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn

4.1 Derbyniodd y Pwyllgor y cynnig.

## 5 Gwrandawiad cyn penodi ar gyfer Cadeirydd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru: trafod y dystiolaeth

5.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law.

5.2 Byddai'r Pwyllgor yn cytuno ar ei adroddiad drwy e-bost, cyn ei gyhoeddi ar 1 Gorffennaf 2022.

## 6 Papur Cwmpasu - Gofal Iechyd Digidol Cymru

6.1 Cytunodd y Pwyllgor ar y dull a awgrymwyd ar gyfer casglu tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig a'r cylch gorchwyl.